Bridgend County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
www.bridgend.gov.uk

# Disgrifiad Swydd

| | |
|---|---|
| **CYFARWYDDIAETH:** | Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant |
| **ADRAN:** | Gofal Cymdeithasol Oedolion / Anabledd Dysgu, Anabledd Dysgu Meddyliol, Iechyd Meddwl a Chamddefnyddio Sylweddau (sy'n gysylltiedig â'r Gwasanaeth Allgymorth Tai Iechyd Meddwl a Chamddefnyddio Sylweddau Arbenigol yng Nghwm Taf Morgannwg) |
| **SWYDD:** | Gweithiwr Cymdeithasol 1, 2 a 3 – Gwasanaeth Allgymorth Tai |
| **GRADD Y SWYDD:** | Gweithiwr Cymdeithasol 1 - Gradd 10 - Newydd Gymhwyso/Blwyddyn gyntaf yn ymarfer<br>Gweithiwr Cymdeithasol 2 – Gradd 11 - Ar ôl cwblhau'r flwyddyn gyntaf o ymarfer<br>Gweithiwr Cymdeithasol 3 - Gradd 12 - Yn amodol ar atgyfnerthu ac o leiaf 2 flynedd o brofiad ôl-gymhwyso. |
| **YN ATEBOL I'R:** | Uwch-ymarferydd – Tîm Gwaith Cymdeithasol Camddefnyddio Sylweddau |

**DIBEN Y SWYDD:**

A chithau'n Weithiwr Cymdeithasol gyda gwasanaeth allgymorth arbenigol, amlasiantaethol, byddwch yn cynorthwyo unigolion sy'n profi digartrefedd ar y stryd, sydd mewn cartrefi a llety ansicr, sy'n byw mewn llety brys (gwely a brecwast/gwesty ac ati), hostel, prosiectau “Tai yn Gyntaf” a thai â chymorth. Yn aml bydd gan yr unigolion hyn anghenion lluosog, cymhleth ac yn ei chael yn anodd cael mynediad at wasanaethau traddodiadol. Bydd y tîm yn gweithio gyda'r unigolion hyn nes eu bod yn addas i'w trosglwyddo i'r timau ehangach fel y bo'n briodol.

Bydd y gwasanaeth yn dod ag asiantaethau iechyd, tai, gofal cymdeithasol a'r trydydd sector at ei gilydd i fynd i'r afael ag anghenion triniaeth a chymorth yr unigolion hyn.

Cynorthwyo unigolion sydd ag anghenion gofal a chymorth, i gynnal asesiadau ac yn bwysicach i gynorthwyo â llywio llwybrau iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn helpu i nodi darpariaeth gwasanaeth yn y dyfodol.

Mae'r swydd wedi'i lleoli yn y Gwasanaeth Allgymorth Tai Iechyd Meddwl a Chamddefnyddio Sylweddau Arbenigol yng Nghwm Taf Morgannwg a bydd yn cynnwys gweithio mewn partneriaeth â gwasanaethau statudol ac anstatudol lleol ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Byddwch yn mynd ati i hyrwyddo ein ‘Model Ymarfer sy'n Seiliedig ar Gryfderau-Gweithio i Gyflawni Canlyniadau’.

**PRIF GYFRIFOLDEBAU A GWEITHGAREDDAU:**

- Cymryd rhan mewn gweithio mewn partneriaeth ac ymgysylltu effeithiol a chydweithio ag amrywiaeth o sefydliadau, statudol a gwirfoddol wrth ddarparu gwasanaethau i blant, pobl ifanc ac oedolion.
- Gweithio mewn cydgynhyrchu ag oedolion, eu gofalwyr a phobl eraill arwyddocaol wrth gynnal asesiadau a chynllunio.
- Cwblhau cofnodion ysgrifenedig, adroddiadau ac asesiadau i safon ragorol fel sy'n ofynnol ar y cyd â pholisïau ac arferion Gwasanaethau Plant ac Oedolion.
- Sicrhau bod rhywun yn gwrando ar farn plant a phobl ifanc fel rhan o unrhyw broses a gynhelir
- Cydnabod bod oedolion â galluedd yn gallu barnu beth sydd er eu lles pennaf a beth fydd yn diwallu eu hanghenion llesiant
- Ar gyfer gweithwyr cymdeithasol yn eu blwyddyn gyntaf o ymarfer, cwblhau eu blwyddyn gyntaf yn ymarfer a'r rhaglen atgyfnerthu.
- Cynnal y safonau proffesiynol uchaf wrth gyflawni'r swydd hon a chadarnhau Cod Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol Cymru; a'i hyrwyddo i eraill o fewn y maes cyfrifoldeb.
- Bodloni gofynion fframwaith a safonau Sicrhau Ansawdd Pen-y-bont ar Ogwr.
- Cymryd cyfrifoldeb personol am wybod y diweddaraf am ddeddfwriaeth, canfyddiadau ymchwil a gwybodaeth am ymarfer, gan gynnwys mynychu hyfforddiant priodol.
- Gwerthfawrogi, cydnabod a pharchu amrywiaeth, arbenigedd a phrofiad unigolion, teuluoedd, gofalwyr, grwpiau a chymunedau ac wrth wneud hynny eu galluogi i wneud penderfyniadau gwybodus a mynegi'r hyn sy'n bwysig iddynt.
- Cynnal asesiadau yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 gyda phlant, oedolion a'u teuluoedd/gofalwyr, nodi canlyniadau a lle y bo'n ofynnol datblygu cynlluniau gofal a chymorth, sy'n cael eu monitro a'u hadolygu. Mae hyn yn cynnwys asesu ac ymarfer fel a ganlyn:
    - Sicrhau bod risgiau i blant ac oedolion yn cael eu hasesu a'u cydbwyso mewn ffordd sy'n hyrwyddo cydgynhyrchu, annibyniaeth a dewis;
    - Sicrhau bod cryfderau yn amgylchiadau'r person yn cael eu nodi a'u hyrwyddo;
    - Cyfrifoldeb am gynllunio a gweithio o fewn yr adnoddau ariannol sydd wedi'u sicrhau i ddarparu gwasanaethau gofal cymdeithasol yn eu maes atebolrwydd
    - Sicrhau bod cynhwysiant cymdeithasol pobl ynysig ac agored i niwed yn cael ei hyrwyddo; yn enwedig rhwydweithio gydag adnoddau cymunedol a theuluol;

- Gweithio mewn cydweithrediad ag asiantaethau eraill gan fabwysiadu dull amlddisgyblaethol lle y bo'n briodol;
- Sicrhau bod cofnodion a gedwir yn electronig, gan gynnwys cofnodion achosion, asesiadau, cynlluniau gofal a chymorth ac adolygiadau'n cael eu cwblhau a/neu eu diweddaru yn unol â pholisi a gweithdrefnau adrannol.

- Gweithio gyda phlant, oedolion a gofalwyr, gweithwyr cymdeithasol i geisio gwella eu galluoedd datrys problemau mewn ffordd sy'n cefnogi'r annibyniaeth a'r dewis mwyaf.
- Ystyried gyda phlant/pobl ifanc ac oedolion, unigolion a gofalwyr, opsiynau i gyflawni'r canlyniadau a nodwyd yn y ffordd orau a chynorthwyo wrth wneud penderfyniadau gwybodus.
- Ceisio sicrhau cymaint o adnoddau ariannol a ffisegol â phosibl sydd ar gael i ddefnyddwyr gwasanaethau o bob ffynhonnell bosibl.
- Coladu canfyddiadau o'r asesiad a chwblhau dogfennaeth asesu yn unol â chanllawiau statudol, deddfwriaeth a gweithdrefnau ac amserlenni adrannol.
- Paratoi adroddiadau llys ac adroddiadau arbenigol eraill yn y safon a'r fformat gofynnol.
- Mynychu cyfarfodydd/cyswllt rhyngasiantaethol e.e. Cynadleddau Amddiffyn Plant neu Oedolion, Adolygiadau CLA a chyfarfodydd strategaeth.
- Paratoi ar gyfer goruchwylio ac adolygiadau datblygu personol a chymryd ynddynt gyda’r rheolwr llinell, a nodi anghenion datblygiad personol a hyfforddiant i gynnal gofynion cofrestru.

**Gweithiwr Cymdeithasol 2 - Fel yr uchod ynghyd ag:**

- Bod yn gyfrifol am sawl achos o gymhlethdod cynyddol gan gynnwys mwy o gymorth i achosion ag unrhyw achosion llys cysylltiedig, gyda'r cyfle i gydweithio.
- Mentora a chefnogi myfyrwyr gwaith cymdeithasol a chynorthwywyr gwaith cymdeithasol yn eu hymarfer.

**Gweithiwr Cymdeithasol 3 - Fel yr uchod ynghyd â**:

- Goruchwylio a mentora myfyrwyr gwaith cymdeithasol ac aelodau eraill o staff iau.
- Rhoi cyngor ac arweiniad i weithwyr cymdeithasol llai profiadol.
- Ymgymryd ag achosion cymhleth, risg uchel, a fydd yn cynnwys mynd i'r llys.
- Arwain cydweithio â gweithwyr cymdeithasol llai profiadol mewn achosion cymhleth.
- Lle y bo'n briodol, mynd ati a chynnal asesiadau'r Ddeddf Galluedd Meddyliol i fodloni gofynion Cod Ymarfer MCA; mae hefyd yn ofynnol i weithwyr cymdeithasol o dan y ddyletswydd statudol hon sicrhau asesiad priodol a gwrthrychol wrth ganfod lles pennaf ar bob achlysur perthnasol.

- Cynnull cyfarfodydd/cyswllt rhyngasiantaethol, e.e. Cynadleddau Amddiffyn Plant neu Oedolion, Adolygiadau CLA a chyfarfodydd strategaeth.
- Herio barn a phenderfyniadau eraill yn briodol lle ceir tystiolaeth nad yw'r canlyniadau llesiant yn cael eu cyflawni.
- Mynd ati'n rheolaidd i gynrychioli ac eirioli ar ran unigolion agored i niwed, teuluoedd a gofalwyr gan sicrhau bod eu hawliau'n cael eu cadarnhau mewn fforymau gwahanol.
- Cynrychioli'r cyngor mewn lleoliadau amlasiantaethol a rhyngddisgyblaethol.
- Cadw at weithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan.

**DYLETSWYDDAU CYFFREDINOL**

**Iechyd a Diogelwch**
Cyflawni'r rolau a chyfrifoldebau cyffredinol a phenodol a nodir yn y Polisi Iechyd a Diogelwch.

**Cyfle Cyfartal**
Sicrhau bod pob gweithgaredd yn cael ei weithredu yn unol â deddfwriaeth cyfle cyfartal ac arfer gorau.

**Diogelu**
Mae amddiffyn plant, pobl ifanc neu oedolion mewn perygl yn un o gyfrifoldebau craidd pob cyflogai. Dylid rhoi gwybod am unrhyw bryderon i'r Tîm Diogelu Oedolion ac Ansawdd neu'r Tîm Asesu Diogelu Plant.

**Adolygiad a Hawl i Amrywio**
Mae'r Disgrifiad Swydd hwn fel yr un cyfredol a chaiff ei adolygu'n rheolaidd. Efallai y bydd gofyn i chi gyflawni tasgau eraill y gellir eu neilltuo i chi'n rhesymol, gan gynnwys gweithgareddau datblygu, sydd o fewn eich gallu a'ch gradd.

**GWIRIAD COFNODION TROSEDDOL (LLE Y BO'N BERTHNASOL)**

Mae'r swydd hon yn ei gwneud yn ofynnol cael gwiriad cofnodion troseddol drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

Bridgend County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
www.bridgend.gov.uk

# Manyleb y Person

## Gweithiwr Cymdeithasol 1, 2 a 3 – Gwasanaeth Allgymorth Tai

Mae'r priodoleddau canlynol yn cynrychioli amrediad y sgiliau, y galluoedd a'r profiad ac ati sy'n berthnasol i'r swydd hon. Disgwylir i'r ymgeiswyr fodloni'r priodoleddau sydd wedi'u nodi fel rhai hanfodol (Ydy).

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| **Cymwysterau, Addysg a Hyfforddiant** | • Gradd mewn Gwaith Cymdeithasol neu gymhwyster Gwaith Cymdeithasol arall a gydnabyddir gan Ofal Cymdeithasol Cymru.<br><br>• Cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru.<br>• Addysg a Dysgu Proffesiynol Parhaus (CPEL) – Cwblhau'r Rhaglen Atgyfnerthu os ydych wedi cymhwyso ar ôl mis Ebrill 2016.<br><br>• Ymarferydd wedi'i atgyfnerthu sydd â 2 flynedd o brofiad ôl-gymhwyso, a sgiliau amlwg ar gyfer cyfrifoldebau gweithiwr cymdeithasol 3. | Ydy<br><br>Ydy<br><br>Ar gyfer GC3 yn unig | Cyflwyno Tystysgrifau Cymwysterau gwreiddiol a ffurflen gais. |
| **Gwybodaeth a Phrofiad** | • Profiad o weithio gydag oedolion ag anghenion am ofal a chymorth/cynllunio gofal a thriniaeth.<br><br>• Gwybodaeth am gyfle cyfartal / ymarfer gwrthormesol. Gwybodaeth a dealltwriaeth o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.<br><br>• Gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau statudol/gwirfoddol i hyrwyddo annibyniaeth unigolion.<br><br>• Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r gweithdrefnau diogelu oedolion a/neu blant yng Nghymru. Swyddi Gwasanaethau Plant: Dealltwriaeth gadarn o'r gyfraith sy'n ymwneud â phlant a theuluoedd.<br><br>• Dealltwriaeth o ddatblygiad plant a'r glasoed. Swyddi Gwaith Cymdeithasol Oedolion: Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r Ddeddf Galluedd Meddyliol a'r Ddeddf | Ydy<br><br>Ydy<br><br><br><br>Ydy<br><br>Ydy | Cyfweliad, ffurflen gais, a phroses ddethol. |

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| | Iechyd Meddwl. Gwybodaeth a dealltwriaeth o egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer pobl hŷn ac anabl.<br>• Profiad o reoli llwyth achosion.<br>• Profiad uniongyrchol o achosion cymhleth. | Ar gyfer GC3 yn unig | |
| | • Profiad uniongyrchol o'r rôl Cydlynu Gofal, sydd â chyfrifoldeb cyfreithiol fel y'i dirprwywyd o dan Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010.<br>• Profiad o waith llys a chyfreithiol. | Ar gyfer GC3 yn unig<br>Ar gyfer GC3 yn unig | Cyfweliad, ffurflen gais a phroses ddethol |
| **Sgiliau a Rhinweddau Personol** | • Gallu gweithio mewn ffordd sy'n seiliedig ar gryfderau, sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, gan nodi'r risgiau i annibyniaeth.<br>• Gweithio yn unol â'r Cod Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gofal Cymdeithasol.<br>• Sgiliau wrth asesu a dadansoddi gwybodaeth i gyflawni canlyniadau cadarnhaol i ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr.<br>• Gallu gweithio'n effeithiol mewn lleoliad amlddisgyblaethol fel aelod o dîm.<br>• Gallu ffurfio perthnasoedd gwaith adeiladol â chydweithwyr ac asiantaethau eraill.<br>• Gallu gweithio'n annibynnol a cheisio cyngor yn ôl yr angen.<br>• Gallu gweithio o fewn y fframwaith deddfwriaethol, polisïau a gweithdrefnau sefydliadau statudol.<br>• Gallu blaenoriaethu a chymryd cyfrifoldeb am reoli llwyth gwaith a pherfformiad. | Ydy<br>Ydy<br>Ydy<br>Ydy<br>Ydy | Cyfweliad, ffurflen gais, a phroses ddethol. |

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| | • Gallu rheoli mewn amgylchedd prysur. | | |
| | • Gallu cyfathrebu'n glir ac yn effeithiol | | |
| | • Ymrwymedig a llawn cymhelliant. | | |
| | • Creadigol, pendant a blaengar. | | |
| | • Gallu ymgynghori â staff eraill a rhoi cyngor iddynt. | | |
| | • Gallu gweithio'n hyblyg ac yn rhagweithiol. | | |
| | • Ymrwymiad y gellir ei ddangos i gydraddoldeb ac arfer gwrthwahaniaethol. | | |
| | • Bod yn hyddysg mewn cyfrifiadura ac yn gallu cyflwyno gwybodaeth ar lafar ac yn ysgrifenedig. | Ydy | |
| | • Trwydded yrru gyda mynediad i gerbyd. | Ydy | |
| | • Gallu gwneud penderfyniadau'n briodol. | Ar gyfer GC3 yn unig | |
| | • Sgiliau ymchwiliol gwych. | Ar gyfer GC3 yn unig | Cyfweliad, ffurflen gais a phroses ddethol |
| | • Gallu datrys problemau wrth weithio dan bwysau. | Ar gyfer GC3 yn unig | |
| | • Gallu cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg. | | |